

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain Chwefror 2016

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Guto G Jones, Hefin Edwards, Prys Ellis, John D Jones, Ieuan Jones, Alun Jones, Cyng Peter Lewis Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Helen Ellis.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Ionawr 2016.

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Gwesty'r Saracens

Deallwyd bod sŵn tu allan i'r gwesty yn ddiweddar o 12.00 nos hyd i 2.00 o'r gloch y bore. Eglurodd y clerch ei fod eisoes wedi anfon cwyn i'r heddlu, ond nad oeddent yn barod i weithredu os nad oedd ymddwyn gwrthgymdeithasol.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Penderfynwyd trafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Gwasanaeth Sgip

Y clerch i drefnu sgip ar gyfer dechrau Mai.

[1.4] Offerynnau Cae Chwarae Ty'n y Felin Glasfryn

Nodwyd ateb gan y Cyngor Sir yn amlinellu os bydd arian ar gael y byddent yn ystyried y cais yn y flwyddyn ariannol nesaf.

[1.5] Arwyddion Cwn/ Cae Llwyd

Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i geisio arwyddion newydd a gofyn am ei gosod yn uwch ar y polyn.

[1.6] Hwylusydd Tai Gwledig

Eglurodd y clerch nad oedd wedi derbyn adroddiad.

[1.7] Llythyrau o Ddiolch

Nodwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniad ariannol

[a] Elusen Addysgol Cerrig-y-Drudion.

[b] Ymatebwyr Cyntaf Uwchaled

[1.8] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Nodwyd ateb oddiwrth Mr Sion Pritchard Swyddog Addysg, ei fod wedi cytuno i gasglu arteffactau a lluniau ar gyfer ei trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned.

Y brif agenda

[1.9] Materion Cynllunio

Trosi ac addasu arfaethedig i ysguboriau presennol yn llety staff a.y.b. Glan –y-Gors Cerrig-y-Drudion.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2] Llwybr o'r llan i gyfeiriad y domen halen

Deallwyd bod y llwybr angen ei lanhau. Y clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

[2.1] Cyllideb 2016/17

Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17

[2.2] Asesiad Risg

[a] Ystafell Blwyf -Nodwyd bod cynhaliaeth flynyddol wedi ei wneud i'r ddau ddiffoddwr tan.

[b] Bod archwiliad trydanol wedi ei gwblhau ym mis Awst 2015

[c] Y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â phrawf legionella

[d] Mynwentydd - Nid oedd angen sylw i unrhyw beth yn y mynwentydd, oddigerth bod y tir yn ddifrifol o wlyb. Y clerc i gysylltu gydag Aeron Humphreys ynglŷn â'r mater.

[2.3] Rheolaeth Mewnol

Penderfynwyd parhau ymlaen gyda'r trefniadau presennol fel a ganlyn:

[a] Pob taliad sic a derbyniadau ariannol i gael ei gofnodi

[b] Mantolen cyfrifon blynyddol i gael ei dosbarthu i bob aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

[c] Pob sic i gael ei llofnodi gan ddau aelod a'r clerc.

[2.4] Nyth/Tlodi Tanwydd

Cyfeiriodd y Cyng Peter Lewis at ohebiaeth oddiwrth Nyth yn amlinellu cyngor arbed ynni a.y.b. a bydd cyngor a'r gael yn y llyfrgell ar y 7fed Fawrth o 10.00 y bore hyd i 1.00 y prynhawn.

[2.5] Brigâd Dan

Deallwyd bod y gwasanaeth tan wedi symud pwmp oedd yn arferol yn gysylltiedig ar frigâd dan yn y llan, a byddai hyn yn pery peth anhawster. Cytunodd y Cyng Peter Lewis i wneud ymholiadau.

[2.6] Ffyrdd sydd angen ei ail wynebu/ a gwaith arall

Eglurodd y Cyng Peter Lewis bod ERF y Cyngor Sir yn gwneud ymholiadau ynglŷn â ffyrdd a oedd angen ei ail wynebu a.y.b. a rhoddwyd y rhestr ganlynol iddo i'w hanfon ymlaen.

[a] Glasfryn - Ffordd Pont Merddwr i gyfeiriad Cefnhirfynydd Isa'

[b] Pont yr Alwen i gyfeiriad Pentrellyncymer

[c] Pont yr Alwen –Angen paentio'r railings.

Cadeirydd _____